

2. Prif Eitemau/Main Items

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A210592	11-06-2021	Mrs E Davies	Erection of a dwelling	Plot Rear Of Brynmorwel, Brynhoffnant, Llandysul, SA44 6DS	Refuse
2	A211168	13-12-2021	(The Luxury Lodge Group Limited)	The development of bases for the siting of lodges, falling under the definition of static caravans, the erection of a building for plant, and the construction of ponds, with associated access, car parking, landscaping and drainage infrastructure works.	Land to the South of Seven Springs Lodge Park, Llanon, SY23 5LZ	Approve Subject to Conditions
3	A211191	24-12-2021	Mr and Mrs Edwards-Phillips	Change of use of land to tourism use, to allow the erection of a pair of cabins for use as holiday accommodation, along with associated works including parking spaces and installation of drainage systems.	Hafodhir Uchaf, Bethania, Llanon, SY23 5NR	Refuse
4	A220476	28-06-2022	Mr J Holmes (Cela Associates)	Residential Development.	Aberporth Sports & Social Club, Club House, Parcllyn, Cardigan, SA43 2DH	Approve Subject to Conditions

Rhif y Cais / Application Reference	A210592
Derbyniwyd / Received	11-06-2021
Y Bwriad / Proposal	Erection of a dwelling
Lleoliad Safle / Site Location	Plot Rear Of Brynmorwel, Brynhoffnant, Llandysul, SA44 6DS
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mrs E Davies, Brynmorwel, Brynhoffnant, Llandysul, Ceredigion, SA44 6DS
Asiant / Agent	Mr Roger Bell (Bell Designs), 34 St Mary Street, Cardigan, Ceredigion, SA43 1DH

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae Brynhoffnant wedi'i leoli yn Ne Ceredigion ar gyffordd pum ffordd ar gefnffordd yr A487, y B4334 ac isffordd, 16km (10 milltir) i'r gogledd ddwyrain o Aberteifi.

Mae'r anheddiad yn cynnwys tua 45-50 o anheddau. Mae'r cyfleusterau yn y pentref yn cynnwys archfarchnad fach/gorsaf betrol, Capel, Ysgol Gynradd (ardal), a thafarndy a bragdy. Mae'r anheddiad hefyd ar y llwybr bysiau rhwng Aberystwyth ac Aberteifi sydd â gwasanaeth dyddiol.

Mae'r safle wedi'i leoli i'r De o'r anheddiad, ar hyd y ffordd tuag at Ysgol T Llew Jones. Mae'r safle dan sylw yn ardd ar hyn o bryd ar gyfer eiddo Brynmorawel ac mae wedi'i leoli yng nghefn yr eiddo, ond mae hefyd yn elwa o'r ffaith bod ffrynt y safle'n wynebu'r ffordd Sirol i Rydlewis.

Does dim hanes cynllunio blaenorol ar y safle.

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn caniatâd cynllunio llawn ar gyfer un byngalo dormer marchnad agored. Mae'r ymgeisydd yn byw yn Brynmorawel ar hyn o bryd ac mae'r safle o fewn gardd gefn yr eiddo hwnnw. Rhoddwyd cyngor cyn ymgeisio gan yr adran yn Nhachwedd 2020, oedd yn nodi bod yna bryderon ynghylch p'un ai oedd digon o le ar y safle ar gyfer annedd. Nodwyd hefyd nad oedd modd darparu mynedfa ddiogel ac ardal amwynder, a allai olygu bod yr eiddo'n edrych dros eiddo arall, yn groes i bolisiau'r CDLI.

Byddai hyd yr eiddo arfaethedig yn 12.53m gyda dyfnder o 7.978m, byddai'r llawr gwaelod yn cynnwys ystafell fyw, cegin/ardal fwyta, ystafell cyfleustodau, ystafell ymolchi ac ystafell wely, gyda'r llawr cyntaf yn darparu dwy ystafell wely *en-suite*. Byddai'r uchder ar y grib yn 6.789m. Byddai'r ardd yn y cefn oddeutu 5.82m yn y man culaf o'r wal gefn ar yr ochr Ddwyreiniol, ac yn 9.2m yn y man lletaf o'r wal gefn. Byddai lle i barcio un car ar ochr yr eiddo, a lle i barcio a throi yn y ffrynt. Byddai gan yr eiddo ddwy ystafell ddormer yn wynebu'r ffrynt a ffenestri velux yn y to, y ddwy yn y cefn ar gyfer yr ystafelloedd ymolchi *en-suite*.

Mae ffrynt y portsh yn dod o fewn 2.5m i ymyl y ffordd. Byddai'r ardal amwynder laswelltog i'r Gogledd o'r annedd.

Mae annedd Brynmorawel wedi'i lleoli i'r Gogledd ac mae'n nodi yn y cynllun bloc arfaethedig y bydd y ddwy sied sydd ar y safle ar hyn o bryd yn cael eu symud i ddarparu ardal amwynder. Mae wal gefn Brynmorawel 6.73m o ardd gefn yr annedd arfaethedig.

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae'r polisiau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol

- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirlunio
- DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- LU02 Gofynion sy'n Ymwneud â Phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- LU06 Dwysedd Tai
- LU24 Darparu Mannau Agored Newydd
- S01 Twf Cynaliadwy
- S03 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig

- S05 Tai Fforddiadwy
- CCA Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg 2015
- CCA Mannau Agored Ebrill 2014
- Taflen Gymorth CCA Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg 2015
- CCA Safonau Parcio CSC 2015
- CCA Asesiad Trafnidiaeth 2015
- CCA Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig 2015
- CCA Cadwraeth Natur 2015
- CCA Tai Fforddiadwy 2014
- Taflenni Cymorth CCA Tai Fforddiadwy 2014
- FW21 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- PPW21 Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11, Chwefror 2021)
- TAN12 Dylunio (2016)
- TAN18 Trafnidiaeth (2007)
- TAN20 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2017)
- TAN5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymarfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol ymarfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i

wneud popeth sy'n rhesymol bosib i'w atal. Mae'r ddyletswydd honno wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn lefel y trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol o ran pobl sydd â nodwedd warchoddedig, nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol arnynt, o'i gymharu ag unrhyw un arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain

YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Penbryn – Yn cefnogi

Priffyrdd – Yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig

Draenio Tir – Gwybodaeth gyffredinol

Ecoleg – Dim gwrthwynebiad

Asiantaeth Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru – Dim gwrthwynebiad

Dŵr Cymru – Dim gwrthwynebiad

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan drydydd parti mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

ASESIAD:

Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan:

"If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol mae datblygiadau preswyl yn anelu at greu aneddiadau cynaliadwy a dylent ddigwydd o fewn ffiniau aneddiadau presennol yn unig. Strategaeth y CDLI yw bod 51% o'r datblygiadau tai newydd ledled y Sir, yn ystod cyfnod y cynllun, yn digwydd o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol, 24% o fewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, a 25% o fewn aneddiadau a lleoliadau eraill (gan gynnwys aneddiadau cyswllt).

Mae'r safle o fewn anheddiad Brynhoffnant sydd wedi'i ddynodi'n Anheddiad Cyswllt o fewn grŵp aneddiadau Aberporth / Parclynn. Mae Polisi S04 y CDLI yn caniatáu datblygu tai ychwanegol o fewn aneddiadau cyswllt yn amodol ar fodloni nifer o feini prawf.

Mae Maen Prawf 2(d) yn nodi - O fewn 'Aneddiadau Cyswllt' yn unig, nad yw'n gronol uwch na 12% o'r stoc dai yn 2007 o fewn yr 'Anheddiad Cyswllt' hwnnw. Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ym Mrynhoffnant sydd wedi'i ddynodi'n anheddiad cyswllt lle cynlluniwyd twf cyfyngedig dros gyfnod y cynllun. Pennodd y CDLI 12% o stoc dai 2007 ar gyfer pob anheddiad cyswllt dros gyfnod y cynllun, ac i Brynhoffnant mae hynny'n cyfateb i 6 uned. Hyd yn hyn cwblhawyd 4 uned o fewn Brynhoffnant dros gyfnod y cynllun, a gwnaed 2 ymrwymiad arall. Felly, does dim gofyniad ar ôl o fewn strategaeth dai y CDLI ar gyfer unedau preswyl pellach o fewn yr anheddiad.

Mae'r cynnig felly yn mynd yn groes i bolisi S04 ac nid yw'n cydymffurfio â'r strategaeth dai a osodwyd yn y CDLI ac a nodir ym mholisi S01.

Serch y gwrthdaro uchod â pholisiau'r Cynllun Lleol, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod bod yna gyfyngiad amser ar y CDLI ac nad oedd yn rhagweld twf tu hwnt i 31ain Mawrth 2022. Mae'n amlwg nad yw'r CDLI mabwysiedig bob amser yn darparu cyfleoedd digonol ar gyfer tai newydd i gwrdd â'r galw a nodwyd mewn rhai lleoliadau mwy cynaliadwy ar draws y Sir yn y dyfodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid rhoi ystyriaeth i'r modd y mae'r cais yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae'r anheddiad yn cynnwys tua 45-50 o anheddau. Mae'r cyfleusterau yn y pentref yn cynnwys archfarchnad fach/gorsaf betrol, Capel, Ysgol Gynradd (ardal), a thafarndy a bragdy. Mae'r anheddiad hefyd ar y llwybr bysiau rhwng Aberystwyth ac Aberteifi, sydd â gwasanaeth dyddiol.

Ystyrir felly bod Brynhoffnant yn anheddiad cynaliadwy o fewn cyd-destun gwledig a gellir cefnogi datblygu pellach yno.

Yn nhermau lleoliad ffisegol, dylid lleoli datblygiadau mewn 'Aneddiadau Cyswllt' o fewn, neu'n union gerllaw'r ardaloedd adeiledig presennol. Am fod y cynnig yn ddatblygiad mewnlenwi yng nghanol Brynhoffnant, mae'n cydymffurfio â'r meini prawf uchod.

Effeithiau ar y Gymraeg

Nid oes unrhyw Asesiad Ardrawiad Cymunedol ac Ieithyddol (CLIA) wedi ei gyflwyno i gefnogi'r cais ac felly nid yw'r awdurdod cynllunio lleol mewn sefyllfa i asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar broffil ieithyddol Brynhoffnant.

Cymeriad a Golwg yr Ardal Leol

Mae'r annedd arfaethedig yn draddodiadol o ran ffurf a natur ac yn elwa o do brig sy'n gyson ag eiddo eraill yn yr ardal leol. Ni ystyrir y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith ar gymeriad ac ansawdd gweledol yr ardal leol .

Amwynder Preswyl

Nod Maen Prawf 7 Polisi DM06 yw gwarchod amwynder deiliaid eiddo cyfagos rhag niwed sylweddol mewn perthynas â phreifatrwydd, sŵn a golygfa. Ceir eiddo preswyl yn union gerllaw'r safle hwn.

Mae'r cynlluniau drychiad a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn dangos na fydd yr eiddo yn fwy na 6.8m ar y crib o edrych arno o'r ffordd sy'n dalach nag eiddo eraill yn y cyffiniau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun safle a gyflwynwyd yn dangos sut y gellir lleoli'r anheddau arfaethedig er mwyn sicrhau na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi unrhyw niwed andwyol i fwynderau preswyl y trigolion presennol.

Ystyrir hefyd nad yw'r bwriad yn gallu sicrhau pellteroedd gwahanu digonol rhwng ystafelloedd cyfanheddol anheddau unigol fel y nodir yn CCA Amgylchedd Adeiledig a Dylunio Ceredigion. Mae'r CCA yn nodi'n glir:

"I ddarparu digon o le amwynder ac i osgoi edrych dros eiddo arall, dylid dilyn y canllawiau canlynol:

- bwlch o 21 metr rhwng ffenestri ystafelloedd cyfanheddol sy'n wynebu'i gilydd
- bwlch o 10.5m rhwng y prif ffenestri â wal wag; a
- dylid darparu dyfnder gardd o 10 metr."

Nid yw'r lle sydd ar gael o faint digonol yn yr achos hwn i ddarparu'r bwlch 21 metr, ac felly ystyrir na ellir cyflenwi'r datblygiad arfaethedig heb gael effaith andwyol ar amwynder yr eiddo cyfagos a phreswylwyr y dyfodol.

Ystyrir hefyd nad oes modd i'r datblygiad arfaethedig ddarparu digon o ardal amwynder preifat awyr agored ar gyfer y datblygiad, gyda dyfnder yr ardd gefn yn 9m yn unig yn y man lletaf, a'r ardal honno'n cael ei defnyddio i barcio ceir hefyd.

O ystyried yr uchod, bernir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar amwynder preswyl, yn groes i bolisi DM06 y CDLI.

Effaith ar Briffyrdd

Byddai cerbydau'n cael mynediad at y datblygiad arfaethedig drwy fynedfa newydd oddi ar y ffordd dosbarth B gerllaw. Darperir 3 lle parcio ar y safle. Ystyrir felly bod y cynnig yn cydymffurfio â'r safonau parcio mabwysiedig a osodir yn y CCA.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Priffyrdd Lleol am y cais ac maent yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig. Mae'r awdurdod priffyrdd lleol yn ystyried nad yw'r lleiniau gweledded arfaethedig yn cydymffurfio â'r llawlyfr cynllunio perthnasol, a byddent yn tansellio diogelwch y priffyrdd, ac yn peri risg i ddefnyddwyr priffyrdd oherwydd presenoldeb clawdd o fewn tir 3ydd parti sy'n ffurfio rhan o'r lleiniau gweledded gofynnol.

O ystyried yr uchod, bernir y byddai caniatáu'r datblygiad yn niweidiol i ddiogelwch y priffyrdd, yn groes i Nodyn Cyngor Technegol 18 Polisi Cynllunio Cymru, a Pholisi DM06 y CDLI sy'n gofyn, ymhlith pethau eraill, bod datblygiadau newydd yn darparu amgylchedd diogel, drwy sicrhau bod cynllun yr adeiladau a'r llwybrau mynediad cysylltiedig yn rhoi egwyddorion diogelwch sylfaenol ar waith. Ni ellir sicrhau'r lleiniau gwelededd gofynnol ar gyfer cerbydau, beicwyr a cherddwyr o fewn y tir sydd dan berchnogaeth/rheolaeth yr ymgeisydd yn yr achos hwn.

Ymgynghorwyd ag Asiantaeth Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru hefyd mewn perthynas â'r cynllun, ac yn sgil cyflwyno gwybodaeth bellach mewn perthynas â lleoedd parcio ar gyfer yr annedd bresennol, nid ydynt yn cynnig unrhyw gyfarwyddyd mewn perthynas â'r cynllun.

Effaith Ecolegol

Ymgynghorwyd ag Ecolegydd Cynllunio Sir Ceredigion mewn perthynas â'r cais ac nid yw wedi mynegi unrhyw wrthwynebiad, yn unol ag amodau'n ymwneud â chyflwyno arolygon adar sy'n nythu, ac arolygon amffibiaid i'r awdurdod lleol cyn clirio'r safle, yn ogystal â rhai'n ymwneud â goleuadau allanol a gwella bioamrywiaeth.

Tai Fforddiadwy

Yn yr achos hwn, er mwyn bodloni polisi S05, mae'n ofynnol bod gwerth cyfatebol o 10% o dai fforddiadwy'n cael eu darparu un ai ar y safle, neu drwy swm gohiriedig. Mae'r ymgeisydd wedi nodi y byddent yn fodlon ymrwymo i A106 i sicrhau swm o'r fath tuag at ddarparu tai fforddiadwy er hyn, ar hyn o bryd does dim A106 wedi'i arwyddo mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, ac felly nid yw'r cynnig yn bodloni maen prawf S05 yn llawn.

Draenio Tir a Pherygl Llifogydd

Ystyrir bod y safle o fewn parth llifogydd A fel y dangosir ar Fap Cyngor Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru, a pharth Llifogydd 1, fel y dangosir ar y Map Llifogydd ar gyfer cynllunio, sef yr wybodaeth orau a mwyaf cyfredol ynghylch llifogydd. Fel y cyfryw, ni ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn un lle mae perygl o lifogydd.

Mae adran gwasanaethau technegol y Cyngor ei hun wedi dweud bod angen cymeradwyaeth SuDs ac maent wedi darparu manylion ar gyfer lleihau'r perygl o lifogydd dŵr wyneb. Ystyrir felly y gellid rheoli'r broses o gael gwared â dŵr wyneb yn briodol drwy broses gymeradwyo SuDs, ac felly ni ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cynyddu'r perygl o lifogydd.

ARGYMHELLIAD:

1. Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar amwynder preswyl eiddo cyfagos, yn groes i bolisi DM06 y CDLI.
2. Mi fyddai'r cynnig yn niweidiol i ddiogelwch y priffyrdd, yn groes i Nodyn Cyngor Technegol 18 Polisi Cynllunio Cymru, a pholisi DM06 y CDLI sy'n gofyn, ymhlith pethau eraill, bod datblygiadau newydd yn darparu amgylchedd diogel, drwy sicrhau bod cynllun yr adeiladau a'r llwybrau mynediad cysylltiedig yn rhoi egwyddorion diogelwch sylfaenol ar waith.
3. Yn absenoldeb cytundeb cyfreithiol adran 106 llofnodedig, mae'r datblygiad arfaethedig yn methu â bodloni Polisi S05 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (mabwysiadwyd 2013).
4. Nid oes unrhyw Asesiad Ardrawiad Cymunedol ac Ieithyddol (CLIA) wedi ei gyflwyno i gefnogi'r cais ac felly nid yw'r awdurdod cynllunio lleol mewn sefyllfa i asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar broffil Ieithyddol Brynhoffnant yn groes i bolisi DM01 Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (mabwysiadwyd 2013).

RHESYMAU DROS GYFEIRIO'R CAIS I'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU:

Mae'r Cynghorydd Gwyn James wedi cyfeirio'r cais i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i'w ystyried oherwydd y rhesymau a ganlyn:

Disgwylir i'r terfyn cyflymder ar y fynedfa i'r safle gael ei ostwng i 20mya erbyn diwedd 2023

Mae niferoedd llai o ddisgyblion yn Ysgol T Llew Jones yn awgrymu bod angen mwy o dai er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn parhau ar agor.

Mae Brynhoffnant yn anheddiad cynaliadwy gyda siop, tafarn a bwyty yn ogystal ag ysgol gynradd fawr.

Rhif y Cais / Application Reference	A210592
Derbyniwyd / Received	11-06-2021
Y Bwriad / Proposal	Erection of a dwelling
Lleoliad Safle / Site Location	Plot Rear Of Brynmorwel, Brynhoffnant, Llandysul, SA44 6DS
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mrs E Davies, Brynmorwel, Brynhoffnant, Llandysul, Ceredigion, SA44 6DS
Asiant / Agent	Mr Roger Bell (Bell Designs), 34 St Mary Street, Cardigan, Ceredigion, SA43 1DH

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

Brynhoffnant is situated in South Ceredigion at a five-way junction of the A487 trunk road, the B4334 and a minor road 16km (10 miles) north-east of Cardigan.

The settlement comprises of approximately 45-50 dwellings. Facilities within the village include a mini supermarket / petrol station, a Chapel, an area Primary School and a public house and brewery. The settlement also lies on a bus route from Aberystwyth to Cardigan which is serviced daily.

The site is located to the South of the settlement, along the road which leads to Ysgol T Llew Jones. The site currently acts as the garden area for the property of Brynmorawel and is located to the rear of this property, but also benefits from a frontage along the County road leading to Rhydlewis.

The site has no previous planning history.

DETAILS OF DEVELOPMENT

Full planning permission is sought for one open market dormer bungalow. The applicant currently lives in Brynmorawel and the site is within the rear garden of this property. Pre-application advice was given by the department in November 2020 which advised that there were concerns whether the site could adequately accommodate a dwelling. It also noted that the site fails to provide a safe access, amenity space and result in potential overlooking and does not accord with the LDP policies.

The length of the property is proposed as 12.53m with a depth of 7.978m, the ground floor will accommodate a lounge, kitchen/diner, utility room, bathroom and bedroom with the first floor providing two en suite bedrooms. The height to ridge would be 6.789m. The garden area to the rear would amount to approximately 5.82m at its narrowest from the rear wall at the Eastern end and 9.2m at its widest from the rear wall. There would be a parking space for one car to the side of the property, with parking and turning to the front. The dwelling would have two dormer windows facing the front and velux windows in the roof, the two to the rear to serve the en-suite bathrooms.

The front of the porch comes within 2.5m of the roadside. The amenity area will be to the North of the dwelling and grassed.

The dwelling of Brynmorawel is located to the North and it states on the proposed block plan that two existing sheds at this property will be removed to provide amenity space. The rear wall of Brynmorawel is located 6.73m from the rear garden of the proposed dwelling

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- DM01 Managing the Impacts of Development on Communities and the Welsh Language
- DM03 Sustainable Travel
- DM04 Sustainable Travel Infrastructure as a Material Consideration
- DM05 Sustainable Development and Planning Gain

- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM09 Design and Movement
- DM10 Design and Landscaping
- DM11 Designing for Climate Change
- DM12 Utility Infrastructure
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape
- LU02 Requirements Regarding All Residential Developments
- LU04 Meeting a Range of Housing Needs
- LU05 Securing the Delivery of Housing Development
- LU06 Housing Density
- S01 Sustainable Growth
- S03 Development in Rural Service Centres (RSCs)
- S05 Affordable Housing
- Community and the Welsh Language SPG 2015

- Open Space SPG April 2014
- Community and the Welsh Language SPG Help Sheet 2015
- CCC Parking Standards SPG 2015
- Transport Assessment SPG 2015
- Built Environment and Design SPG 2015
- Nature Conservation SPG 2015
- Affordable Housing SPG 2014
- Affordable Housing SPG Help Sheets 2014
- FW21 Future Wales: The National Plan 2040
- PPW21 Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)
- TAN12 Design (2016)
- TAN18 Transport (2007)
- TAN20 Planning and the Welsh Language (2017)
- TAN5 Nature Conservation and Planning (2009)

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard

to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

Cyngor Cymuned Pebryn Community Council – Support

Highways – Object to the proposed development

Land Drainage – General informative

Ecology – No Objection STC

Welsh Government Trunk Road Agency – No objection

Dwr Cymru Welsh Water – No Objection

No third-party representations have been received in respect of the proposed development.

ASSESSMENT:

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that:

“If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise”.

In accordance with national and local planning policies residential development is directed towards sustainable settlements and should be contained within existing settlement boundaries. The Strategy of the LDP is that over the plan period 51% of new housing development across the County will occur in the Urban Service Centres, 24% in the Rural Service Centres and 25% in other settlements and locations (including linked settlements).

The site is within the settlement of Brynhoffnant which is designated as a Linked Settlement within the Aberporth / Parcllyn settlement group. Policy S04 of the LDP allows additional housing development within linked settlements subject to a number of criteria being met.

Criterion 2(d) states - In the 'Linked Settlements' only, it does not cumulatively exceed 12% of the existing level of housing as at 2007 in that 'Linked Settlement'. The proposed development is located in Brynhoffnant which is designated as a linked settlement where limited growth is planned for over the plan period. The LDP designated 12% of 2007 housing stock to each linked settlement for the plan period, for Brynhoffnant this equates to 6 units. There have so far been 4 completions within Brynhoffnant over the plan period with 2 further commitments. Therefore, there is no remaining requirement with the LDP housing strategy for additional residential units with Brynhoffnant.

The proposal is therefore contrary to policy S04 and is not compliant with the housing strategy as set out in the LDP and specified within policy S01.

Notwithstanding the above conflict with Local Plan Policies, the Local Planning Authority (LPA) recognises that the LDP is time expired and did not envisage growth beyond the 31st of March 2022. It is evident that the adopted LDP does not always provide adequate opportunities for new housing to meet the identified demand in some more sustainable locations across the County moving forward. In such circumstance consideration should be given to the way in which application accord with Planning Policy Wales and future Wales 2040 The National Plan.

The settlement comprises of approximately 45-50 dwellings. Facilities within the village include a mini supermarket / petrol station, a Chapel, an area Primary School and a public house and brewery. The settlement also lies on a bus route from Aberystwyth to Cardigan which is serviced daily.

It is therefore considered Brynhoffnant represents a sustainable settlement in a rural context and further development can be supported.

In terms of the physical location, development in 'Linked Settlements' should be located within or immediately adjacent to the substantive-built form. As the proposal entails infill development in the centre of Brynhoffnant, it complies with the above criteria.

Welsh Language Impacts

No Community and Linguistic Impact Assessment (CLIA) has been submitted in support of the application however and as such the local planning authority is not in a position to assess the impacts of the proposed development on the Linguistic profile of Brynhoffnant.

Character and Visual Appearance

The proposed dwelling is traditional in form and nature benefitting from a pitched roof which is consistent with other properties within the locality. The proposed development is not considered to impact the character and visual quality of the locality.

Residential Amenity

Criterion 7 of Policy DM06 seeks to protect the amenity of occupiers of nearby properties from significant harm in relation to privacy, noise and outlook. There are residential properties to the immediate vicinity of the site.

The elevation plans submitted as part of the application show that the property will be no more than 6.8m at the ridge when viewed from the road which is taller than other properties in the vicinity. However, the site plan submitted fails to demonstrate how the proposed dwellings could be positioned as to ensure that the proposed development would not give rise to any detrimental harm to residential amenity of current residents.

It is also considered that the proposed development is incapable of ensuring adequate separation distances between habitable rooms of individual dwellings as specified with the Ceredigion Built Environment and Design SPG. The SPG clearly states that:

"To provide adequate amenity space and prevent overlooking the following should be applied as a guide:

- 21 meter gap between opposing windows of habitable rooms
- 10.5m gap between main windows and a blank wall; and
- A 10 meter garden depth should be provided."

The space is not sufficient in size in this instance to meet the 21 meter gap, as such it is considered that the proposed development is incapable of being implemented without giving rise to detrimental impact on the amenity of adjoining properties and future residents.

It is also considered that the proposed development is incapable of accommodating a sufficient amount of outdoor private amenity space to serve the proposed development. With a rear garden depth of just 9m being provided at the widest point, with this area also being utilized for the parking of cars.

Given the above it is considered that the proposed development would give rise to a detrimental impact on residential amenity contrary to DM06 of the LDP.

Highway Impact

Vehicular access to the proposed development would be via a new access off the adjoining B classified road, with 3 parking spaces provided on site. The proposal is therefore considered to accord with the adopted parking standards as set out in the SPG.

However the Local Highway Authority have been consulted on the application and object to the proposed development. The local highway authority considers the proposed visibility splays fail to conform with the relevant design manual and undermine highway safety and poses a risk to highway users owing to the presence of a hedge within 3rd party land which forms part of the required visibility splays.

Given the above it is considered that allowing the development would be harmful to highway safety, contrary to Planning Policy Wales Technical Advice Note 18: and LDP Policy DM06 that inter alia requires new development to provide a safe environment by ensuring that the design of buildings and associated access routes implement fundamental safety principles. The requisite visibility splays for emerging vehicles, cyclists and pedestrians cannot be secured within the land identified within the applicant's ownership/control.

The Welsh Government Trunk Road Agency have also been consulted in respect of the scheme, and following the submission of additional information in regard to the parking provision of the existing dwelling offer no direction in respect of the scheme.

Ecological Impact

Ceredigion County Planning Ecologist has been consulted in respect of the application and offers no objection subject to conditions relating to nesting bird surveys, and amphibian surveys being submitted to the local authority prior to site clearance taking places as well as relating to external lighting and biodiversity enhancements.

Affordable Housing

In this instance, in order to satisfy policy S05, there is a requirement for the equivalent value of 10% affordable dwellings to be provided either on site or by a commuted sum. The applicant has indicated that they would be agreeable to entering into a S106 to secure such a sum towards the provision of affordable housing, however, there is currently no signed S106 in respect of the proposed development as such the proposal has failed to fully satisfy the criteria of S05.

Land Drainage and Flood risk.

The site is considered to be in floodzone A as shown on NRW's Development Advice Map, and Flood zone 1 as shown of the Flood map for planning which is the most up to date and best available information in respect of flooding. As such the proposed development is not considered to be at risk of flooding.

The councils own technical services department have advised SUDs approval is required and provide details of how to minimize the risk of surface water flooding. It is therefore considered that surface water disposal could be appropriately managed by way of the SUDs approval process, as such the proposed development is not considered to increase the risk of flooding.

RECOMMENDATION:

1. The proposed development is considered to detrimentally impact the residential amenity of neighbouring properties contrary to DM06 of the LDP.
2. The proposal would be harmful to highway safety, contrary to Planning Policy Wales Technical Advice Note 18: and LDP Policy DM06 that inter alia requires new development to provide a safe environment by ensuring that the design of buildings and associated access routes implement fundamental safety principles
3. In the absence of a signed section 106 legal agreement, the proposed development has failed to satisfy Policy S05 of the Ceredigion Local Development Plan 2007-2022 (adopted 2013).
4. No Community and Linguistic Impact Assessment (CLIA) has been submitted in support of the application and as such the local planning authority is not in a position to assess the impacts of the proposed development on the Linguistic profile of Brynhoffnant contrary to DM01 of the Ceredigion Local Development Plan 2007-2022 (adopted 2013).

Reasons for referring the application to the Development Management Committee:

Councillor Gwyn James has referred the application to the Development Management committee for consideration owing to the following reasons:

The speed limit at the site access is set to be reduced to 20mph by the end of 2023

Reduced pupil numbers at Ysgol T Llew Jones suggest a need for more housing in order to ensure the school remains open.

Brynhoffnant is a sustainable settlement with a shop, public house and restaurant as well as a large primary school.

2.2. A211168



Rhif y Cais / Application Reference	A211168
Derbyniwyd / Received	13-12-2021
Y Bwriad / Proposal	The development of bases for the siting of lodges, falling under the definition of static caravans, the erection of a building for plant, and the construction of ponds, with associated access, car parking, landscaping and drainage infrastructure works.
Lleoliad Safle / Site Location	Land to the South of Seven Springs Lodge Park, Llanon, SY23 5LZ
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	(The Luxury Lodge Group Limited), Northern Assurance Buildings 9-21 Princess Street, Manchester, M2 4DN
Asiant / Agent	Ms Helen Ashby-Ridgway (Lichfields), Belmont House Churchill Way, Cardiff, CF10 2HE

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL

Mae'r safle wedi'i leoli ar y ffordd rhwng Llanon a Phennant, gyferbyn â Bryn Lluest. Mae pentref Llanon 3km i ffwrdd ac Aberaeron 8km i ffwrdd. Rhoddwyd caniatâd cynllunio yng Ngorffennaf 2007 Cyf. A060282 i adleoli 30 o garafannau o Blasmorfa, Llanon i Frynlluest. Ar hyn o bryd mae'r safle wedi'i dirlunio, crëwyd dau lyn, adeiladwyd swyddfa ar gyfer y safle, ac mae tua 20 o gabanau yn y Seven Springs Lodge Park presennol. Rhoddwyd caniatâd pellach ar gyfer annedd rheolwr ar 7fed Ionawr 2015.

Mae'r safle o fewn Ward Cyngor Cymuned Llansantffraed, ac nid yw'r parc cabanau presennol na'r estyniad arfaethedig yn ddarostyngedig i unrhyw ddynodiadau statudol. Mae gwrychoedd aeddfed o amgylch y safle y bwriedir ei ehangu, sy'n gorwedd i'r de o'r datblygiad presennol ac ar hyn o bryd mae'n dir pori.

Hanes y Safle:

- A060282 - *Adleoli 30 o garafannau o Blas Morfa i Flaen Lluest, Llanon* -Cymeradwywyd 30ain Gorffennaf 2007
- A110962 – *Codi annedd rheolwr* -Cymeradwywyd 7fed Ionawr 2015

MANYLION Y DATBLYGIAD

Bydd y cynnig arfaethedig yn ymestyn dros tua 3.5 hecтар, ac mae'r cais yn gofyn caniatâd i osod 37 llain galed ar gyfer carafannau statig, ni fydd unrhyw gyfleusterau ychwanegol ar y safle, a'r bwriad yw hyrwyddo defnydd o gyfleusterau lleol ac archwilio ardaloedd cefn gwlad cyfagos. Bydd y 37 o leiniau caled wedi'u lleoli i'r de o'r safle presennol a bydd modd cael mynediad atynt drwy ddau agoriad newydd yn y gwrychoedd ffiniol presennol, a fydd yn cysylltu â chynllun ffyrdd mewnl presennol parc cabanau Seven Springs. Crëir tri llyn newydd a fydd yn ganolbwynt ar gyfer y carafannau perthnasol.

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae'r polisïau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

Polisiau Cynllunio Cenedlaethol a Chanllawiau Perthnasol:

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- TAN6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy
- TAN12: Dylunio
- TAN13: Twristiaeth
- TAN18: Trafnidiaeth
- TAN23: Datblygu Economaidd

Polisïau Cynllunio Lleol Perthnasol:

- S01: Twf Cynaliadwy
- S04: Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- DM03: Teithio Cynaliadwy
- DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM09: Dylunio a Symud

- DM10: Dylunio a Thirlunio
- DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17: Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM20: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- DM22: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol
- LU14: Safleoedd Llety Twristiaeth Ledled y Sir: Carafannau Statig a Theithiol, Lleiniau Gwersylla, Cabanau a Chalets

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i ymarfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol ymarfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal, a'r angen i wneud popeth sy'n rhesymol bosib i'w atal. Mae'r ddyletswydd honno wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn lefel y trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol o ran pobl sydd â nodwedd warchoddedig, nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol arnynt, o'i gymharu ag unrhyw un arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i ymarfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain

YMATEBION YMGYNGHORI

- Cyngor Cymuned Llansantffraed: Dim gwrthwynebiad
- Priffyrdd – Cynnig nifer o amodau i'w hychwanegu at unrhyw ganiatâd
- Cyfoeth Naturiol Cymru – Ddim yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn nodi y gellid datrys eu pryderon drwy osod amod yn gofyn bod Cynllun Adeiladu a Rheoli Amgylcheddol (CEMP) yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol
- Iechyd yr Amgylchedd - Dim gwrthwynebiad i'r cynnig, argymhell gosod amod ynghylch yr oriau adeiladu a ganiateir
- Dŵr Cymru - Dim sylwadau

Derbyniwyd sylwadau gan ddau drydydd parti, gydag un yn gwrthwynebu a'r llall yn gwneud sylwadau o bersbectif niwtral. Mae eu pryderon wedi'u crynhoi isod:

Gwrthwynebwyr:

- Datblygu o fewn cefn gwlad agored
- Mae newid defnydd tir o dir ffermio i safle carafannau yn anghydnaws ac yn weledol andwyol
- Pryderon ynghylch llygredd golau
- Sŵn a cholli preifatrwydd
- Colli golygfeydd

Sylwebydd Niwtral:

- Pryderon ynghylch llygredd golau'n effeithio ar yr awyr dywyll bresennol dros y safle
- Yn nodi y byddai'n rhaid i'r ffiniau fod yn ystyriol o geffylau
- Mi all effeithio ar yr olygfa o Fae Ceredigion

ASESIAD

Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: “

If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise”.

Egwyddor Datblygu:

Mae twristiaeth yn un o brif sectorau cyflogaeth Ceredigion, ac un o amcanion y CDLI yw datblygu economi dwristiaeth y sir yn gynaliadwy drwy:

- Annog datblygiad twristiaeth gynaliadwy;
- Cynorthwyo i wneud Ceredigion yn fwy deniadol fel cyrchfan dwristiaeth drwy'r flwyddyn gyfan;
- Sicrhau bod llety twristiaeth yn cael ei ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy a'i leoli'n briodol;
- Annog darpariaeth bellach o atyniadau a chyfleusterau twristiaeth.

Mae'r cais hwn am estyniad i faes carafannau statig presennol sydd wedi'i leoli tu allan i ffiniau anheddiad Llanon, sydd 3km i ffwrdd, ac sydd felly o fewn 'lleoliadau eraill' fel y'u nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae Polisi S01 yn cyfeirio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau i'r Canolfannau Gwasanaethau Gwledig am mai nhw yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy, ond mae'r CDLI yn cydnabod bod angen rhywfaint o ddatblygu o fewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' i ddiwallu anghenion cymunedau presennol. O ganlyniad, mae Polisi S04 yn nodi y caniateir datblygu o fewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill ar yr amod (lle bo'n berthnasol)

- maen prawf 1 – nad yw'n arwain at golli gwasanaethau a chyfleusterau oni bai bod yna ddarpariaeth ddigonol mewn anheddiad neu Ganolfan Wasanaethau gyfagos;
- maen prawf 3 – yn achos datblygu economaidd, ei fod:
 - ar raddfa fach sy'n cwrdd ag angen lleol penodol;
 - yn cydymffurfio â gofynion TAN 6 yn nhermau menter wledig;
- maen prawf 4 – bod yr holl ddatblygu o fewn 'Lleoliadau Eraill' yn cwrdd â gofynion TAN 6.

O ran maen prawf 1, nid yw'r cynnig yn arwain at golli gwasanaethau a chyfleusterau. Mae paragraff ategol 6.171 yn cyfeirio at ddatblygu economaidd 'ar raddfa fach' ac mae'n gofyn bod datblygiadau twristiaeth yn cydweddu â maint yr anheddiad y'u bwriedir ar ei gyfer – does dim arwynebedd tir / nifer unedau diffiniedig. Mae TAN 6 yn cyfeirio at ddatblygu tir fel eithriad i'r cyfyngiadau polisi arferol o leoli datblygiadau yng nghefn gwlad. Mae datblygu sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn cael ei gydnabod fel menter wledig gymwys o fewn TAN 6. Felly ni fyddai'r cynnig yn mynd yn groes i TAN 6. Mae'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol yn ôl Polisi S04.

Y prif bolisi sy'n berthnasol i'r cynnig yw LU14 sy'n cyfeirio at ddatblygu sy'n gysylltiedig â llety carafannau statig, carafannau teithiol, lleiniau gwrsylla, cabanau a chalets. Mae safle'r cais wedi'i leoli tu allan i'r Ardal Arfordirol lle mae'r polisi'n datgan y caniateir estyniadau i safleoedd carafannau statig, carafannau teithiol, cabanau a chalets presennol, yn amodol ar y canlynol:

- bod asesiad o effaith anghenion a datblygu twristiaeth yn cael ei gyflwyno
- nad yw unrhyw gyfleusterau newydd sydd eu hangen oherwydd yr estyniad yn effeithio ar fywiogrwydd y cyfleusterau a gynigir eisoes o fewn yr anheddiad agosaf

Asesiad o Effaith Twristiaeth a Datblygu

Cyflwynwyd asesiad o effaith anghenion a datblygu twristiaeth gan Lichfields, a oedd yn amlinellu natur foethus, pen ucha'r farchnad y parc presennol a'r estyniad arfaethedig, yr honnir y bydd yn ychwanegu at yr amrywiaeth o lety gwyliau sydd ar gael yn yr ardal leol. Roedd 'cynnig unigryw' y parc fel 'parc gwyliau moethus, pen ucha'r farchnad' yn debygol o ddenu lefelau uwch na'r cyfartaledd o wariant gan ymwelwyr carafannau statig/parciau cabanau gwyliau. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod Ceredigion yn denu llai o ymwelwyr nag ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos, ond eto'n elwa o lefelau sylweddol o wariant ymwelwyr.

Gosodwyd buddiannau economaidd y cynnig i'r sir yn yr asesiad, gan honni y byddai cyfanswm o tua £1 filiwn o fuddsoddiad sector preifat yn deillio o'r cynllun, gan greu 14 FTE person-blwyddyn o waith adeiladu dros dro, sy'n gyfwerth ag 17 o swyddi FTE yn ystod y cyfnod adeiladu o 10 mis, yn ogystal â chreu 18 o swyddi FTE anuniongyrchol ac ysgogedig yn ystod y cyfnod adeiladu o fewn gwasanaethau a busnesau eraill yn sgil dod o hyd i gyflenwyr, a gweithwyr adeiladu'n

gwario'u cyflogau. Ystyriwyd y byddai'r cynnig yn cefnogi 1.8 o swyddi FTE uniongyrchol yn y dyfodol ac yn arwain at gyfanswm gwariant ymwelwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol/ysgogedig o £740,000, a allai gefnogi 14 o swyddi FTE yn yr economi leol.

Roedd cyfraddau llenwi'r unedau rhent sydd ar gael ar y safle presennol gan Hoseasons, a fesurwyd rhwng 2il Ebrill ac 16eg Gorffennaf 2021 yn 95%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y cwmni ledled Cymru, sef 92%. Roedd cyfartaledd ehangach Cymru ar gyfer carafannau statig / cabanau yn 56% ac yn 50% ar gyfer Ceredigion.

Yn ôl arolwg o gronfa ddata cynllunio Ceredigion gan Lichfields rhwng 1af Mehefin 2016 ac 16eg Mehefin 2021, roedd 61 o gabanau gwyliau neu garafannau statig wedi'u cymeradwyo, a doedd dim o'r rhain wedi'u lleoli o fewn ward Llansantffraed.

Bywiogrwydd yr anheddiad agosaf

Ni fwriedir cael unrhyw gyfleusterau arlwyio neu hamdden/adloniant ar y safle y tybir fyddai'n amharu ar fywiogrwydd anheddiad Llanon gerllaw. Mae hyn yn cyd-fynd â natur wreiddiol a phresennol y safle, sydd â chabanau hunanddarpar, gyda defnyddwyr y cabanau hynny'n defnyddio'r gwasanaethau sydd eisoes ar gael yn yr anheddiadau a threfi cyfagos.

Ystyrir bod yna alw amlwg am y math arbennig hwn o lety, sy'n darparu ar gyfer pen uchaf, foethus y farchnad, ac mae galw o'r fath, fel y'i gosodir yn yr asesiad a gyflwynwyd, yn bodloni gofynion Polisi LU14. Mae'r gyflogaeth yn ystod y cyfnod adeiladu, yn ogystal â'r cyfnod pan fydd y safle'n weithredol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, drwy gadwyni cyflenwi a chyfraniadau i'r economi leol, yn gyfle i ehangu ac arallgyfeirio'r ddarpariaeth dwristiaeth yng Ngheredigion.

Dyluniad:

Mae Polisi Cynllunio Cymru'n datgan "mae dylunio da yn hollbwysig i greu mannau cynaliadwy lle mae pobl eisiau byw, gweithio a chymdeithasu. Mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig."

Trafodwyd sawl dyluniad gwahanol gyda'r cyngor a'r ymgeisydd fel rhan o'r broses cyn ymgeisio. Cyflwynwyd 3 dyluniad a dewiswyd yr ail opsiwn fel yr un fwyaf ffafriol ar ôl gwneud gwelliannau iddo. Mi fydd y dyluniad terfynol yn cynnwys 37 uned gyda system unffordd ar gyfer mynediad ledled y safle. Mi fydd gan y rhan fwyaf o'r unedau newydd olygfa o nodweddion mewnol, ac eithrio 5 caban ar hyd y ffin ddwyreiniol, a fydd yn mwynhau golygfa o'r môr.

Bydd y cabanau arfaethedig yn dod dan y diffiniad o garafán statig. Yn unol â Deddf Carafannau Statig 1968, ni fydd yr unedau'n fwy nag 20m o hyd, 6.8m o led a 3.05m o uchder. Bydd y ffyrdd mynediad o fewn y safle'n adlewyrchu'r rhai presennol, gydag arwyneb graean ac ymylon cwrw.

Bydd cynllun y rhwydwaith ffyrdd mewnol a lleoliad y lleiniau caled ar gyfer y carafannau statig yn dilyn gwyrriad y safle, sydd ar siâp pedol o edrych arno i gyfeiriad y gogledd. Bydd y 37 o leiniau caled wedi'u lleoli'n bennaf o amgylch dau bwl dŵr gwahanol. Bydd 15-21 ohonynt yn rheiddio o amgylch ardal blanedig a fydd yn cynnwys coed, creigiau, glaswelltir blodau gwyllt a meinciau. Bydd y lleiniau caled hyn yng nghornel de-ddwyreiniol y safle a bydd ganddynt olygfeydd o'r môr, am eu bod wedi'u lleoli ar ben uchaf y safle, sydd ar oledf.

Ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisïau DM06, DM09, DM10 a DM17 y CDLI, sydd â'r nod o:

- ategu at y safle a'r ardal gyfagos yn nhermau ei gynllun, gan greu ffurf cydlynus mewn perthynas â maint, uchder a chyfrannedd y ffurf adeiledig presennol
- sicrhau defnydd o dirlunio caled a meddal o ansawdd da a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol
- gwarchod amwynder deiliaid eiddo cyfagos rhag niwed sylweddol mewn perthynas â phreifatrwydd, swm, a golygfa
- dangos sut y mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu ac yn gwarchod barn leol a strategol.

Arolwg Coed:

